

Beth fydd yn digwydd i'm pensiwn os byddaf yn ysgaru / diddymu fy mhartneriaeth sifil?

Y Llys sy'n gyfrifol am benderfynu os yw eich pensiwn wedi ei 'Glustnodi' neu os yw Gorchymyn Rhannu Pensiwn yn cael ei roi ar eich Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw'r un o'r dewisiadau yma yn orfodol.

Beth yw Gorchymyn Rhannu Pensiwn?

Mae Gorchymyn Rhannu Pensiwn yn caniatáu i ran o fuddion gael eu talu am oes i'ch cyn briod / bartner sifil o ganlyniad i achosion ysgariad neu ddiddymiad Partneriaeth Sifil a gychwynnodd wedi Rhagfyr 1, 2000. **Nid yw'n berthnasol mewn ymwahaniad barnwrol.**

Beth fydd yn digwydd i'm pensiwn ar ôl gorchymyn rhannu pensiwn?

Bydd eich buddion pensiwn yn cael ei debydu yn syth gan y gyfran a benodir gan y Llys a'i ddyfarnu i'ch cyn briod / bartner sifil fel credyd pensiwn.

Os ydych eisoes yn derbyn pensiwn CPLIL bydd eich cyn briod / partner sifil ond yn cael pensiwn blynyddol. (Ni fyddant yn cael unrhyw opsiwn arian parod di-dreth).

Beth os ydw i yn ail-briodi / cychwyn partneriaeth sifil newydd?

Os ydy'ch buddion pensiwn yn amodol ar Orchymyn Rhannu Pensiwn yna yn dilyn eich marwolaeth, fe ostyngir unrhyw bensiwn sy'n daladwy i'ch priod newydd, partner sifil, neu bartner sy'n gyd fyw cymwys.

Bydd unrhyw enwebiad Grant Marwolaeth flaenorol yn parhau i sefyll oni bai eich bod yn cwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad newydd. Er mwyn gwneud hynny, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

Beth fydd yn digwydd i Gredyd Pensiwn fy Nghyn Briod / Partner Sifil?

Bydd eich cyn briod / partner sifil yn dod yn aelod credyd pensiwn o'r CPLIL, sy'n golygu y byddant yn gallu derbyn eu buddion pensiwn yn wirfoddol o 55 mlwydd oed (yn amodol ar ostyngiad actiwaraid) dan reoliadau cynllun presennol, neu o'u Hoedran Pensiwn Arferol (OPA) heb ostyngiad. O dan reoliadau'r cynllun ar hyn o bryd, mae'r OPA yn gysylltiedig â'r Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac felly gall newid yn y dyfodol. Noder y call credyd pensiwn ddod yn daladwy yn gynharach ar sail salwch.

Fel arall, gall eich cyn-briod / partner sifil ddewis trosglwyddo eu credyd pensiwn i drefniant pensiwn arall o'u dewis.

Beth yw Clustnodi?

Clustnodi yw ble mae cyfran o'ch buddion yn cael eu talu i'ch cyn briod / partner sifil pan ydych yn ymddeol. Gall y buddion a delir i'ch cyn bartner fod ar ffurf lwmp swm neu ran o'ch pensiwn blynyddol.

Bydd taliadau pensiwn i'ch cyn briod / partner sifil yn dod i ben ar eich marwolaeth. Os yw eich cyn briod yn ail briodi neu os yw eich cyn partner sifil yn cychwyn mewn perthynas sifil newydd bydd y gorchymyn clustnodi yn annilyd a bydd eich pensiwn llawn yn cael ei adfer i chi. (Ni ddefnyddir clustnodi yn eang ond gall gael ei ddefnyddio ar gyfer ymwahaniad barnwrol).

A Effeithir Pensiynau Plant Cymwys?

Ni effeithir ar bensiynau plant gan Glustnodi neu Orchymynion Rhannu Pensiwn.

Gofyn am wybodaeth ar gyfer achosion Lllys

Bydd yn rhaid i chi neu'ch cyfreithiwr ofyn am Werth Arian Cyfwerth (GAC) o'ch hawliau pensiwn o'ch Cronfa Bensiwn, gan gynnwys gwerth unrhyw gronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) sydd gennych. Bydd y Llys wedyn yn penderfynu os, a sut y bydd eich hawliau pensiwn yn cael eu rhannu.

Pryd Allaf Ddisgwyl y GAC Gennych Chi?

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais dylech ddisgwyl derbyn eich GAC oddi fewn **3 mis**. Gall y bydd oediad oherwydd bod angen gwybodaeth gan y Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CTHEM) a'ch cyflogwr. Bydd y Gronfa Bensiwn yn cyfrifo y GAC dim ond wedi i ni dderbyn y wybodaeth yma.


Nodwch os gwelwch yn dda, gall bydd cost weinyddol am ddarparu eich GAC.

Gwybodaeth Bellach

Rhoi arweiniad cyffredinol yn unig yw bwriad y daflen hon. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Ffôn: **01267 224 043**

E-bost: **pensiynau@sirgar.gov.uk**



Pensiynau ac Ysgariad neu Diddymiad o Bartneriaeth Sifil